

Archwilio Ein Byd

Teithiau



**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Archwilio Ein Byd

Teithiau

**Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon**

Tania ap Siôn, Leslie J Francis a Libby Jones

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd 2016 gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan
Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y
Gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei
atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn
unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig,
mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands
Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

YNGHYLCH Y GYFRES ARCHWILIO EIN BYD

Am beth mae'r gyfres?

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn gwneud pethau cyffrous ac yn archwilio'r byd o'u cwmpas. Yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, mae Aled a Siân yn rhannu rhai o'u profiadau gyda'u ffrindiau Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd. Mae Aled a Siân hefyd yn mwynhau gwrando ar storïau eu ffrindiau, ac yn dysgu sut mae'r rhain yn perthnasu â'u storïau nhw eu hunain. Mae hyn yn helpu'r ffrindiau ddod i adnabod ei gilydd yn well. Gyda'i gilydd, maen nhw'n archwilio'r themâu poblogaidd, sef dathliadau, fi fy hun ac eraill, adegau a thymhorau, teithiau, pobl arbennig, ac arwyddion a symbolau.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, a'r lle gaiff ei ddarparu mewn addysg i holi, i archwilio ac i lunio dealltwriaeth gynyddol pobl ifanc o'u perthynas â hwy eu hunain, gydag eraill, ac â byd natur. Mae'r gyfres wedi cael ei llunio ar ymchwil helaeth y maes crefyddau, pobl ifanc ac addysg, yn ogystal ag ar ymwneud ag arfer addysgol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r sylfeini hyn yn gosod y gyfres mewn sefyllfa unigryw ymhlith y nifer fawr o adnoddau addysgol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r adnoddau yn y gyfres yn fwriadol yn hyblyg a heb fod yn rhagnodol. Mae hyn yn cydnabod natur y dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth heddiw ar gyfer plant dan 7 oed, a hefyd bwysigrwydd ysgogi a chefnogi creadigrwydd ac unigolrwydd athrawon wrth iddyn nhw lunio eu manau dysgu.

Mae'r gyfres wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi ei dyfeisio i gefnogi addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gyda golwg ar ddysgu gweithredol trwy ddull chwarae. Mae'n tynnu'n benodol ar *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru*, ac mae'n ymwneud â'r rhain. Er bod yr adnoddau gweithgaredd wedi eu lleoli yn y cyd-destun penodol hwn, mae'n hawdd perthnasu'r gwaith ymchwil, a'r dulliau pedagogaidd sy'n sail iddyn nhw, i gyd-destunau eraill ac i'r cwricwla ysgol sy'n newid.

Ar gyfer pwy mae'r gyfres?

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 3 - 5 oed a phlant 5 - 7 oed, ond mae'r amrywiaeth o fformatau llyfr stori a'r gweithgareddau'n gwneud y gyfres yn berthnasol ar gyfer plant iau a phlant hŷn yn ogystal.

Mae'r gyfres wedi ei chynllunio yn bennaf ar gyfer athrawon a dysgwyr mewn ysgolion; fodd bynnag, gall rhai o fewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol eraill, gan gynnwys y cartref, hefyd ganfod y gyfres yn ddiddorol ac yn berthnasol.

Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae chwe llyfr stori yn y gyfres *Archwilio Ein Byd*, sy'n ymchwilio i rai o'r pethau pwysig y mae Aled a Siân yn dod o hyd iddyn nhw wrth archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'r pethau pwysig hyn yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn yr amgylchedd seciwlar lleol cyn cael eu harchwilio drwy lygaid pobl ifanc o fewn traddodiad crefyddol penodol (Cristnogol, Hindŵaidd, Iddewig a Mwslimaidd). Teitlau'r chwe llyfr stori yw:

Plant 3 – 5 oed

- Dathliadau
- Fi fy hun ac Eraill
- Adegau a Thymhorau

Plant 5 – 7 oed

- Teithiau
- Pobl Arbennig
- Arwyddion a Symbolau

Mae pob un o'r llyfrau stori i'w cael mewn pedwar fformat gwahanol, y mae'n bosib eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn unol â chyd-destunau unigol. Mae pedwar fformat i'r llyfrau stori:

- fersiwn testun byr (testun byr, syml gyda lluniau)
- fersiwn testun hir (testun hirach, mwy cymhleth gyda lluniau)
- fersiwn cwestiynau allweddol (cwestiynau allweddol a lluniau)
- fersiwn lluniau (lluniau'n unig heb destun)

Mae pob un o'r fformatau ar gael i'w llwytho i lawr ar ffurf .pdf, y gellir eu defnyddio ar fyrddau gwyn ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau electronig sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ysgolion, a chan bobl ifanc a'u teuluoedd heddiw.

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl ar gael fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth.

I ategu'r llyfrau stori, mae gan bob un o'r llyfrau stori ei becyn ei hun o *Adnoddau Gweithgaredd* ar gyfer dysgwyr ac athrawon mewn fformat .pdf y gellir ei lwytho i lawr. Mae'r Adnoddau Gweithgaredd hyn yn dilyn yr un strwythur â'r llyfrau stori. Felly, ar gyfer pob tudalen ddwbl o'r llyfr stori, mae:

- tudalen o syniadau ar gyfer gweithgareddau i bob un o'r saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen;
- taflen neu daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr i ategu un o'r syniadau gweithgaredd hyn;
- cysylltiadau â 'mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol'.

Yn gyfan gwbl, ar gyfer pob teitl llyfr stori mae yma 154 o syniadau am weithgareddau a 11 o daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr.

Mynediad at adnoddau'r gyfres *Archwilio Ein Byd*

Mae'r holl adnoddau hyn yn rhai y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl llyfr stori ar gael hefyd i'w brynu fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer ei ddefnyddio yn y dosbarth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y storïau ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau'n greadigol yn eich cyd-destunau dysgu eich hunain.

Dr Tania ap Siôn

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick

Yr Athro Leslie J Francis

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick


Libby Jones

Canolfan San Silyn, Wrecsam

Phillip Vernon

Canolfan y Santes Fair, Cymru

Gorffennaf 2016



Tudalen 4



Tudalen 5

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch sut mae dŵr yn berwi ac yn troi'n stêm
- Archwiliwch pam mae angen glo a dŵr ar injan stêm

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl sgwrs Aled a Siân gyda'r dyn ar y platfform
- Rhestrwch y pethau mae Aled a Siân yn gallu eu gweld oddi ar y bont

Datblygiad iaith Gymraeg

- stêm
- mwg

Datblygiad corfforol

- Meimiwch symudiadau a synau injan stêm
- Smaliwch fod yn drenau a signalau, yn aros a chychwyn

Datblygiad creadigol

- Gwnewch gollage o injan stêm yn dangos y mwg a'r stêm (**Gweithgaredd 1**)
- Gwnewch hetiau ar gyfer meistr yr orsaf

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch sut roedd glo'n cael ei gloddio ar gyfer yr injan stêm
- Chwiliwch am luniau o wahanol fathau o drenau o wahanol wledydd y byd

Datblygiad mathemategol


- Mae trên yn gadael yr orsaf bob 30 munud rhwng 10.30 a 4.30. Faint o drenau yw hynny?
- Sawl olwyn sydd ar yr injan?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Gwnewch gollage o injan stêm, gan ddefnyddio'r templed.





Tudalen 6



Tudalen 7

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Pam mae traphont yno?
- Holwch ynghylch pontydd rheilffordd

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Adroddwch y stori am ddiwrnod Aled a Siân yn Llangollen
- Siaradwch am brofiadau teithiau trên

Datblygiad iaith Gymraeg

- cerbyd rheilffordd
- rheilffordd trên

Datblygiad corfforol

- Ffurfiwch drên hir gan gyfleu'r trwst wrth fynd dros y draphont
- Ymgasglwch yn nyffryn yr afon a chodwch eich llaw ar y trên uwchben

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch draphont gan ddefnyddio lego
- Dyluniwch fyrddau enwau ar gyfer gorsaf reilffordd

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch am y bobl fu'n adeiladu rheilffyrdd
- Ystyriwch effaith rheilffyrdd ar yr amgylchedd

Datblygiad mathemategol

- Holwch ynghylch faint o blant yn y dosbarth sydd wedi bod ar daith trên a chyflwynwch y wybodaeth ar ffurf siart (**Gweithgaredd 2**)
- Mae pump o ffenestri ar bob ochr y cerbyd. Faint o ffenestri sydd ar ddau gerbyd?


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol







Faint?

Faint o blant sydd wedi bod ar daith trên?



Enghreifftiau





Tudalen 8



Tudalen 9

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Ewch ati i ddarganfod ble mae eglwysi cadeiriol (**Gweithgaredd 3**)
- Holwch ynghylch beth sy'n digwydd mewn eglwys gadeiriol

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Disgrifiwch beth ydych chi'n ei weld yn y llun gyda'r esgob
- Pa gwestiynau yr hoffech chi eu gofyn i'r esgob?

Datblygiad iaith Gymraeg

- esgob
- eglwys gadeiriol

Datblygiad corfforol

- Gwisgwch amdanoch yn gynnes ar gyfer taith ym mis Tachwedd
- Cerddwch i ymweld ag eglwys

Datblygiad creadigol

- Gwnewch allor ar gyfer Dewi Sant
- Gwnewch groes i'r esgob ei gwisgo


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Pam mae Peter a Mary'n mynd i'r eglwys gadeiriol ar ddydd Sul?
- Pam mae'r esgob yn gwisgo crys porffor a chroes ddisglair?

Datblygiad mathemategol

- Faint o ffenestri sydd i'w gweld yn y llun o'r eglwys gadeiriol
- Nodwch y siapiau ydych chi'n gallu eu gweld yn y gysegrfa

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Faint o filltiroedd

Nodwch ble mae eich ysgol ar y map.

- Sawl centimetr (cm) sydd rhwng eich ysgol a'r eglwys gadeiriol bellaf, pe byddech chi'n teithio mewn llinell syth?
- Faint o filltiroedd yw hyn?





Tudalen 10



Tudalen 11

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch yr Adfent
- Ble mae Jerwsalem?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am ddiwrnod Peter a Mary yn yr eglwys gadeiriol
- Darllenwch eiriau carol Adfent a thrafodwch beth mae'r geiriau'n eu dweud am yr Adfent (**Gweithgaredd 4**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- golau kannwyll
- carolau

Datblygiad corfforol

- Ffurfiwch gôr a chanwch garol Adfent (**Gweithgaredd 4**)
- Ewch ar bererindod i fan lleol

Datblygiad creadigol

- Gwnewch lyfrau i'r côr eu defnyddio
- Dyluniwch ganhwyllau ar gyfer y gwasanaeth

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Pam roedd Jerwsalem yn bwysig iawn i Dewi Sant?
- Sut beth yw bywyd yn Jerwsalem heddiw?

Datblygiad mathemategol

- Faint o bobl sydd yn y côr?
- Am faint o amser mae kannwyll yn llosgi?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol

Ymatebion
personol

Cwestiynau



Carol Adfent

Ceisiwch ddarllen a chanu tri phennill o garol Adfent neu ofyn i rywun arall ei darllen i chi.

- Beth mae'n ei ddweud wrthyhych chi am yr Adfent?

O tyred di, Emaniwel,
A datod rwyau Israel,
Sydd yma'n alltud unig, trist,
Hyd ddydd datguddiad Iesu Grist :
O cân, O cân, Emaniwel
Ddaw atat ti, O Israel.

O tyred, olau'r seren ddydd,
Diddana ein calonnau prudd;
O gwasgar ddu gymylau braw,
A chysgod angau gilia draw:
O cân, O cân, Emaniwel
Ddaw atat ti, O Israel.

O tyred, Arglwydd yn dy nerth,
Tydi, yr hwn ar Seinau serth
Gyhoeddaist gynt dy ddeddfau glân
Mewn mawredd a chymylau tân:
O cân, O cân, Emaniwel
Ddaw atat ti, O Israel.





Tudalen 12



Tudalen 13

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Ewch ati i ddarganfod ble mae Caerdydd
- Holwch ynghylch beth sy'n digwydd mewn synagog

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Disgrifiwch beth ydych chi'n ei weld yn y llun gyda'r rabi
- Pa gwestiynau yr hoffech chi eu gofyn i'r rabi?

Datblygiad iaith Gymraeg

- dydd Sadwrn
- synagog

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch rôl gwneud eich hun yn barod ar gyfer taith i Gaerdydd
- Dychmygwch mai synagog yw eich ystafell ddosbarth gan gymryd eich tro i ddangos y lle i Nathan a Rachel

Datblygiad creadigol

- Gwnewch kippah
- Dyluniwch tallit


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Pam mae Nathan a Rachel yn mynd i'r synagog ar ddydd Sadwrn? Holwch ynghylch pa ddyddiau'r wythnos sy'n ddyddiau arbennig mewn crefyddau eraill. **(Gweithgaredd 5)**
- Pam mae'r rabi'n gwisgo'r kippah a'r tallit?

Datblygiad mathemategol

- Sawl fflam kannwyll sydd yn y llun?
- Sawl pigyn sydd i'r seren? Ceisiwch dynnu llun seren gan ddefnyddio dau siâp triongl

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Dyddiau arbennig

Holwch ynghylch pa un yw diwrnod arbennig yr wythnos ar gyfer y gwahanol grefyddau.


Crefydd

Dydd arbennig

Cristnogaeth




Iddewiaeth



Islam



Hindŵaeth



Dydd Llun

Dydd Mawrth


Dydd Mercher

Dydd Iau

Dydd Gwener

Dydd Sadwrn

Dydd Sul



Tudalen 14



Tudalen 15

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch y Saboth
- Beth yw'r Torah?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am ddiwrnod Nathan a Rachel yng Nghaerdydd
- Darllenwch ran o'r Torah (**Gweithgaredd 6**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- Iddewiaeth
- sgrôl

Datblygiad corfforol

- Cariwch sgrôl y Torah mewn ffordd barchus at y ddarllenfa
- Dilynwch y testun gyda phwyntydd, gan ddilyn y llinellau'n ofalus

Datblygiad creadigol

- Gwnewch sgrôl Torah
- Gwnewch gefnlen collage ar gyfer y ddarllenfa

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Pam mae pobl yn gwisgo pethau am eu pen yn y synagog?
- Pam roedd Caerdydd yn ganolfan i Iddewon?

Datblygiad mathemategol

- Faint o bobl sydd yn y llun yn gwrando ar y rabi?
- Pa wlad ar y map yw'r fwyaf a pha un yw'r leiaf?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol

Ymatebion
personol



Cwestiynau






Darllen y Torah

Darllenwch ran o'r Torah yn uchel.

Dilynwch y geiriau'n ofalus â phwyntydd.



Yn y dechreuad, creodd Duw'r nefoedd a'r ddaear. Wrth wahanu'r goleuni oddi wrth y tywyllwch, fe greodd Duw oleuni ar y diwrnod cyntaf un. Cafodd y goleuni ei alw'n 'ddydd' a chafodd y tywyllwch ei alw'n 'nos'. Lluniodd Duw y byd trwy greu'r awyr, y moroedd a'r tir. Fe glywson nhw sut y llanwodd Duw'r mannau hyn â'r planhigion a'r coed, yr haul a'r lleuad, y pysgod, yr adar a'r anifeiliaid. Yna, ar y chweched diwrnod fe greodd Duw bobl, dyn a dynes. Pan oedd y gwaith hwn wedi'i orffen, fe edrychodd Duw ar bopeth yr oedd wedi'i wneud a gweld bod y cyfan yn dda iawn. Felly, ar y seithfed diwrnod fe orffwysodd Duw ac fe fendithiwyd y dydd a'i wneud yn sanctaidd. Cafodd y diwrnod hwnnw ei alw'n Shabbat, a'i osod ar wahân i chwe diwrnod arall yr wythnos.





Tudalen 16



Tudalen 17

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Ewch ati i ddarganfod ble mae mosg
- Holwch ynghylch beth sy'n digwydd mewn mosg

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Disgrifiwch beth ydych chi'n ei weld yn y llun gyda'r imam
- Pa gwestiynau yr hoffech chi eu gofyn i'r imam?

Datblygiad iaith Gymraeg

- Islam
- dydd Gwener

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch rôl gwneud eich hun yn barod i fynd ar daith i'r mosg
- Tynnwch eich esgidiau i fynd i mewn i'r ystafell weddïo

Datblygiad creadigol

- Gwnewch gap
- Gwnewch fêl (**Gweithgaredd 7**)


Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Pam mae Ahmed a Salma'n mynd i'r mosg ar ddydd Gwener?
- Pam mae'r imam yn gwisgo cap?

Datblygiad mathemategol

- Faint o lyfrau ydych chi'n gallu eu gweld yn y cwpwrdd llyfrau?
- Sawl dydd Gwener sydd yn y mis hwn?


Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol






Gwnewch fêl

Dyluniwch a lliwiwch ddefnydd ar gyfer fêl.
Dyma rai syniadau.





Tudalen 18



Tudalen 19

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch Yemen
- Edrychwch ble mae Somalia ar fap

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am ddiwrnod Ahmed a Salma yn y mosg
- Darllenwch weddi Islamaidd

Datblygiad iaith Gymraeg

- morwyr
- cychod

Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymarfer pob ystum gweddïo (**Gweithgaredd 8**)
- Mae pobl yn gweddïo mewn gwahanol ffyrdd – ceisiwch roi cynnig ar wahanol weithgareddau a meddwl sut y byddai rhywun yn gweddïo tra bydden nhw'n eu gwneud, e.e. penlinio, yn eistedd â'u coesau wedi'u croesi, cerdded, rhedeg, garddio

Datblygiad creadigol

- Gwnewch fatiau gweddïo
- Ysgrifennwch weddi Islamaidd yn ofalus iawn

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Pam mae pobl yn gweddïo?
- Holwch ynghylch y gwahanol ffyrdd y mae pobl yn gweddïo

Datblygiad mathemategol

- Amcangyfrifwch sawl cm yw Somalia a Yemen o Gaerdydd ar y map, a gwiriwch eich ateb drwy ddefnyddio pren mesur
- Holwch ynghylch faint o blant yn eich dosbarth neu grŵp blwyddyn sy'n gweddïo ar ben eu hunain (ar wahân i gyfnod addoli ar y cyd)

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Ymatebion
personol

Ystyr




Gweddi Islamaidd

Ewch ati i ymarfer pob ystum gweddi Islamaidd.





Tudalen 20



Tudalen 21

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Ewch ati i ddarganfod ble mae temlau Hindŵaidd
- Holwch ynghylch beth sy'n digwydd mewn templ Hindŵaidd

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Disgrifiwch beth ydych chi'n ei weld yn y llun gyda'r mynach
- Pa gwestiynau yr hoffech chi eu gofyn i'r mynach Hindŵaidd?

Datblygiad iaith Gymraeg

- bwyd
- diod

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch rôl gwneud eich hun yn barod i fynd ar daith i'r deml Hindŵaidd
- Ewch at i ymarfer penlinio'n dawel o flaen yr allor

Datblygiad creadigol

- Gwnewch offrymau ar gyfer y gwasanaeth puja (er enghraifft, bwyd a blodau papur)
- Gwnewch allor (**Gweithgaredd 9**)

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol


- Pam mae'r mynach yn gwisgo cadwyn gleiniau?
- Pam mae'r gwasanaeth puja yn bwysig?

Datblygiad mathemategol

- Gwnewch gadwyn gleiniau a chyfrifwch y gleiniau
- Ceisiwch benlinio'n dawel am 20 eiliad

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol








Gwnewch allor Hindŵaidd

Dewiswch beth hoffech chi ei roi ar yr allor.

Meddylwch yn ofalus ynghylch ble rydych chi'n gosod y pethau, a pham.





Tudalen 22



Tudalen 23

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch prashad
- Ble mae Sri Lanka?

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am ddiwrnod Rajeev a Meena yn y deml Hindŵaidd
- Nodwch yr hyn rydych chi'n gallu ei weld, ei glywed a'i aroglu mewn gwasanaeth puja (**Gweithgaredd 10**)

Datblygiad iaith Gymraeg

- cloch
- aroglarth

Datblygiad corfforol

- Canwch gloch a llosgwch aroglarth i greu awyrgylch
- Chwaraewch rôl cyflwyno bwyd, dŵr a tân fel y mynachod

Datblygiad creadigol

- Gwnewch allor ar gyfer offrymu'r bwyd, dŵr a tân
- Gwnewch gollage ar gyfer yr allor i Arglwydd Murugan

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Rhowch wahoddiad i Hindŵ ddod i siarad am yr allor sydd yn eu cartref
- Cymharwch yr allor Hindŵaidd gyda'r ystafell weddio Fwslimaidd

Datblygiad mathemategol

- Amcangyfrifwch sawl cm yw Sri Lanka o Gymru ar y map, a gwiriwch eich ateb drwy ddefnyddio pren mesur
- Faint o bethau ydych chi'n gallu eu gweld ar yr allor Hindŵaidd, a faint o bethau ydych chi'n gallu eu gweld yn yr ystafell weddi Fwslimaidd?

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol








Gwasanaeth puja

Beth ydych chi'n gallu ei weld, ei glywed a'i arogli mewn gwasanaeth puja?

Ysgrifennwch neu tynnwch lun yr hyn rydych chi'n ei weld, glywed a'i arogli.





Tudalen 24



Tudalen 25

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Ewch ati i ddarganfod ble mae eich ffrindiau wedi bod, a nodwch y mannau hynny ar fap (**Gweithgaredd 11**)
- Lluniwch siart bar o'r ffyrdd y mae eich ffrindiau wedi teithio (car, trên, ac ati)

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Siaradwch am eich taith arbennig chi
- Gwrandwch ar hanes teithiau arbennig eich ffrindiau

Datblygiad iaith Gymraeg

- taith
- awyren

Datblygiad corfforol

- Meimiwch eich taith arbennig chi
- Gwnewch ddawns am daith arbennig

Datblygiad creadigol

- Gwnewch fap i ddangos ble mae eich ffrindiau wedi bod
- Tynnwch lun o ble rydych chi wedi bod ynddo

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Gwrandewch ar enwau eich ffrindiau a holwch ynghylch o ble maen nhw wedi dod
- Ewch ati i ddarganfod a yw teulu eich ffrindiau'n perthyn i grefydd neilltuol

Datblygiad mathemategol

- Gwnewch siart bar yn nodi'r ffyrdd mae eich ffrindiau wedi teithio ar eu taith arbennig (car, trên, ac ati)
- Gwnewch siart yn nodi faint o amser gymerodd eu taith

Mynd yn ddyfnach i
agweddau ar addysg
grefyddol





Ble mae fy ffrindiau wedi bod ar ymweliad?

Ewch ati i ddarganfod ble mae eich ffrindiau wedi bod, a nodwch y mannau hynny ar fap.





Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yng Nghymru

Ystod: Pobl, Credoau a Chwestiynau (5-7)

Dylai plant gael cyfleoedd (trwy storïau, gweithgareddau a phrofiadau) i:

- gael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd;
- archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu ar fywyd pobl a rhoi arweiniad** iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach;
- gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio;
- ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth;
- mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol;
- archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.



Tudalennau 4-5

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.

Archwilio dimensiynau crefyddol adnoddau naturiol fel glo.

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Dysgwch sut roedd glo'n cael ei gloddio ar gyfer yr injan stêm.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Cael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.

Archwilio dimensiynau crefyddol cysylltu â'r gorffennol.

Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl sgwrs Aled a Siân gyda'r dyn ar y platfform.





Tudalennau 6-7



Agwedd ar yr ystod

Gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio pam mae adrodd storïau'n agwedd mor bwysig ar draddodiadau crefyddol.

Maes dysgu

laith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Adroddwch y stori am ddiwrnod Aled a Siân yn Llangollen.



Agwedd ar yr ystod

Archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu** ar fywydau pobl a *rhoi arweiniad* iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio sut mae crefydd wedi dylanwadu ar enwau llefydd.

Maes dysgu

Datblygiad creadigol

- Dyluniwch fyrddau enwau ar gyfer gorsaf reilffordd.



Tudalennau 8-9

Agwedd ar yr ystod

**Datblygiad Addysg
Grefyddol**


Maes dysgu

Cael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.

Archwilio'r gwahanol rolau sydd gan bobl mewn eglwys gadeiriol.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth sy'n digwydd mewn eglwys gadeiriol.



Agwedd ar yr ystod

**Datblygiad Addysg
Grefyddol**

Maes dysgu

Ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.

Archwilio pam mae'r groes yn bwysig i'r esgob.

Datblygiad creadigol

- Gwnewch groes i'r esgob ei gwisgo.





Tudalennau 10-11

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.

Archwilio eich teimladau wrth ffurfio côr a chanu carol Adfent.

Datblygiad corfforol

- Ffurfiwch gôr a chanwch garol Adfent.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.

Archwilio beth mae Adfent yn ei olygu i Gristnogion.


Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Darllenwch eiriau carol Adfent a thrafodwch beth mae'r geiriau'n eu dweud am yr Adfent.





Tudalennau 12-13



Agwedd ar yr ystod

Cael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.


Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio'r gwahanol rolau sydd gan bobl mewn synagog.

Maes dysgu

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth sy'n digwydd mewn synagog.



Agwedd ar yr ystod

Ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.

Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio steiliau gwahanol o kippah a tallit.

Maes dysgu

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Pam mae'r rabi'n gwisgo'r kippah a'r tallit?



Tudalennau 14-15

Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol


Maes dysgu

Mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.

Archwilio eich teimladau wrth gario sgrôl y Torah mewn ffordd barchus at y ddarllenfa.

Datblygiad corfforol

- Cariwch sgrôl y Torah mewn ffordd barchus at y ddarllenfa.



Agwedd ar yr ystod

Datblygiad Addysg Grefyddol

Maes dysgu

Gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio.

Archwilio beth mae'r Saboth yn ei olygu i Iddewon.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch y Saboth.





Tudalennau 16-17

Agwedd ar yr ystod

**Datblygiad Addysg
Grefyddol**


Maes dysgu

Cael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd.

Archwilio'r gwahanol rolau sydd gan bobl mewn canolfan Islamaidd.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Holwch ynghylch beth sy'n digwydd mewn Canolfan Islamaidd.



Agwedd ar yr ystod

**Datblygiad Addysg
Grefyddol**

Maes dysgu

Ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth.

Archwilio pam mae'r cap yn bwysig i Ahmed a'r fêl yn bwysig i Salma.

Datblygiad creadigol

- Gwnewch gap neu fêl.





Tudalennau 18-19

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol Archwilio eich teimladau wrth i chi ymarfer pob ystum gweddïo. Datblygiad corfforol • Ewch ati i ymarfer pob ystum gweddïo.
Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Ymchwilio a mynegi ystyr (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. Archwilio beth mae'r mat gweddïo'n ei olygu i Fwslimiaid. Datblygiad creadigol • Gwnewch fatiau gweddïo.



Tudalennau 20-21

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Cael mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. Archwilio pa rolau sydd gan bobl mewn teml Hindŵaidd. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • Holwch ynghylch beth sy'n digwydd mewn teml Hindŵaidd.
---	--

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Mynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. Archwilio eich teimladau wrth benlinio'n dawel o flaen yr allor. Datblygiad corfforol • Ewch at i ymarfer penlinio'n dawel o flaen yr allor.
---	--



Tudalennau 22-23

Agwedd ar yr ystod

Archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu** ar fywydau pobl a *rhoi arweiniad* iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach.



Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio pa ddylanwad y mae allorau'n eu cael ar Hindŵiaid.

Maes dysgu

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Rhowch wahoddiad i Hindŵ ddod i siarad am yr allor sydd yn eu cartref.

Agwedd ar yr ystod

Gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio



Datblygiad Addysg Grefyddol

Archwilio pam mae Hindŵiaid yn cyflwyno bwyd, dwr a than wrth yr allor.

Maes dysgu

Datblygiad corfforol

- Chwaraewch rôl cyflwyno bwyd, dwr a than fel y mynachod.



Tudalennau 24-25

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio ein cyfrifoldeb ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol. Archwilio arwyddocâd crefyddol gwranddo'n astud ar storïau eich ffrindiau. Datblygiad mathemategol Lluniwch siart bar o'r ffyrdd y mae eich ffrindiau wedi teithio yn ystod eu taith arbennig (car, trên, ac ati).
---	---

Agwedd ar yr ystod Datblygiad Addysg Grefyddol Maes dysgu	 Archwilio sut y mae crefydd wedi dylanwadu ar fywydau pobl a <i>rhoi arweiniad</i> iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Archwilio amrywiaeth crefyddol ymysg eich ffrindiau. Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Ewch ati i ddarganfod a yw teulu eich ffrindiau'n perthyn i grefydd neilltuol.
---	--